# Cyngor Cymuned Clynnogfawr

Adroddiad Blynyddol

2023 - 2024



# Adroddiad y Cadeirydd

Dyma ail adroddiad blynyddol y Cyngor Cymuned gyda’r bwriad o roi amlinelliad byr o weithgareddau'r Cyngor dros y flwyddyn 2023 i 2024.

Yn ystod y flwyddyn mae wedi bod yn bleser croesawu aelodau newydd i’r Cyngor ac ‘rydwyf yn falch iawn o allu dweud bod nifer dda o’r aelodau yn mynychu ein cyfarfodydd. Yn anffodus iawn fe gollwyd un aelod ffyddlon a gweithgar, Emyr Olsen, yn ddiweddar ac yn sicr bydd chwith mawr ar ei ol.

Hoffwn ddiolch i’m cyd-aelodau am eu gwaith dros y deuddeg mis diwethaf a hefyd i’r clerc am ein cadw mewn rhyw fath o drefn

**Thomas Williams, Cadeirydd**

# Cyllid y Cyngor

| | |
|---|---|
| ❑ Incwm o'r Praesept | £20,000 |
| ❑ Incwm o grantiau ac ati | £3,880 |
| ❑ Incwm o ffioedd | dim |
| ❑ Gwariant | £40,060 |
| ❑ Balansau'r Cyngor ar ddiwedd 2023-24 | £1,960 |

# Rhoddion i fudiadau'r ardal

Rhoddwyd cyfanswm o dros £5,700 fel nawdd i sawl mudiad yn yr ardal gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol (£1,500), Lleu (£150), Neuadd y Pentref, Clynnog (£1,000), Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle (£100), Ysgol Hafod Lon (£50) a Parc Chwarae, Clynnog (£2,900)



# Gweinyddiaeth a Llywodraethant

- ❑ Cafwyd 11 cyfarfod o’r Cyngor yn ystod y flwyddyn (yn arferol, nid yw'r Cyngor yn cwrdd ym mis Awst oni bai bod rhywbeth o bwys yn codi)
- ❑ Ni thalwyd lwfans presenoldeb na lwfans treuliau blynyddol i unrhyw aelod o’r cyngor gyda phob aelod yn optio allan o’r taliadau
- ❑ Oherwydd problemau technegol gyda’r wefan bresennol, mae’r Cyngor wedi datblygu un newydd fydd yn cwrdd â gofynion y Cyngor ac asiantau allanol yn well.
- ❑ Penodwyd Cyngor Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol y Cyngor am 2023 – 24

# Ceisiadau Cynllunio

Trafodwyd cyfanswm o ddeuddeg cais cynllunio yn ystod y flwyddyn gyda'r mwyafrif yn derbyn cefnogaeth y Cyngor



# Gwaith y Cyngor 2023 – 2024

- Mae'r gwaith ar y llwybr cyhoeddus newydd i lan y mor ym Mhontllyfni bellach wedi ei gwblhau.
- Mae'r Cyngor Cymuned wedi datblygu gwefan newydd lle ceir yr holl wybodaeth am weithgareddau'r Cyngor – gweler www.cyngorcymunedclynnog.cymru
- Mae'n dda gweld y byrddau picnic yn yr ardal yn cael eu defnyddio, a'r bwried nawr yw gosod un ar lan y mor ym Mhontllyfni.
- Mae'r Cyngor yn dal yn gyfrifol am dorri gwair llwybrau cyhoeddus yr ardal (ond nid y llwybr arfordirol sydd yng ngofal Cyngor Gwynedd) er ein bod yn ceisio torri lawr ar y gost sylweddol hon.  Mae'r Cyngor yn archwilio i mewn i dorri gwair ym mhentrefi Clynnog a Phontllyfni ei mwyn cadw'r ardal yn daclus.

# Gwaith y Cyngor 2023 – 2024 (2)

- Cododd problem fawr yn ystod y flwyddyn gyda pherchennog Plas y Bryn yn gwrthod mynediad i unrhyw gerbyd lawr y lon fach ger y fynwent ac wedi rhoi clo ar y giat ger Bod Fasarn. Yn amlwg mae hyn wedi creu peth problem i'r Cyngor Cymuned yn enwedig pan fydd angladdau yn yr eglwys gan amharu ar waith y torrwyr beddi ac ati. Hefyd mae wedi gwneud gwaith y torrwyr gwair yn anodd ond rydym yn ffyddiog y gellir datrys y broblem yn fuan.

- Bu'r Cyngor yn gyfrifol am wella'r llwybrau o amgylch y fynwent ac yn ol adroddiadau mae hyn wedi ei gwneud yn lawer haws i'r rhai sydd angen ymweld a'r eglwys.

# Rhaglen waith ar gyfer 2024 – 2025 (1)

- Dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r Cyngor wedi derbyn sawl sylw am safon y torri gwair ym mhentrefi Clynnog a Phontllyfni, ac felly mae’n fwriad edrych os oes modd i’r Cyngor Cymuned drefnu torri’r gwair yn amlach na’r presennol gan Gyngor Gwynedd.
- Mae’r Cyngor Cymuned wedi derbyn sawl cwyn am gerbydau yn gor-yrru drwy Bontllyfni ac maent yn archwilio y posibilrwydd o osod arwyddion VAS newydd yn y pentref, ac efallai hefyd, yn Aberdesach
- Mae rhan o wal y fynwent yng Nghlynnog wedi disgyn felly bydd rhaid symud ymalen gydag ail-godi’r wal.

# Rhaglen waith ar gyfer 2024 – 25 (2)

- Cynnal a chadw llochesau bws yr ardal – mae fandaliaeth yn broblem mewn rhai mannau yn enwedig ger y Swan  Mae hefyd angen lloches bws yn Tai'n Lon
- Gwella delwedd y pentrefi o fewn y gymuned a chysylltu â Thîm Tacluso Ardal Ni (Cyngor Gwynedd) i benderfynu'r ffordd orau ymlaen.
- Trwy gydweithrediad a'r adrannau perthnasol yng Nghyngor Gwynedd, bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i ddelio â chwynion am lwybrau cyhoeddus a phriffyrdd y gymuned